# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 Mawrth 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Roland Evans** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 450** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Buddsoddi i Arbed Neuadd Dwyfor, Pwllheli** |

**1. Y Penderfyniad a geisir:**

**1.1.** Gofynnir i'r Cabinet:

- Gefnogi'r egwyddor o ddatblygu prosiect cyfalaf buddsoddi i arbed gwerth hyd at uchafswm o £779,314 yn Neuadd Dwyfor er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau, gwella'r cyfleon i godi incwm a sicrhau diogelwch defnyddwyr;
- Cydnabod y risg o golled incwm o ganlyniad i gau'r Neuadd yn ystod y gwaith adeiladu os bwrir ymlaen;
- Cefnogi dyrannu cyfraniad un-tro o gyllideb Trawsnewid y Cyngor ar gyfer y buddsoddiad - sef hyd at **£570,000 (cyfalaf)**;
- Cefnogi ail-broffilio arbedion fel a gytunwyd yn wreiddiol i'r proffil a amlinellir yn nhabl 8.1;
- Cefnogi cyflwyno ceisiadau i gyrff allanol i geisio lleihau cyfraniad y Cyngor ac uchafu gwerth buddsoddiad y Cyngor;
- Cefnogi adnabod a chydweithio gyda partneriaethau a sefydliadau lleol all gefnogi'r Neuadd i gyrraedd y targed arbediad llawn o £100,000 yn y tymor canolig yn dilyn y buddsoddiad - a hynny trwy osod her arnynt leihau'r bwlch ariannol a chynorthwyo'r Cyngor i wneud arbediad parhaol o £100,000 yn y gyllideb erbyn 2025.

**2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad:**

**2.1.** Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar arbedion 2019 – 2022 rhoddwyd targed o £100,000 o arbediad yn erbyn Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio Neuadd Dwyfor. Roedd y targed yma i'w wireddu trwy gynllun Buddsoddi i Arbed fyddai'n gwella'r Neuadd a'r cyfleon codi incwm yno.

**2.2.** Mae cynlluniau wedi eu datblygu, costau buddsoddi wedi eu hamcangyfrif a cheisiadau grant wedi eu gwneud i Lywodraeth Cymru gwerth £120,000.

**2.3.** Gofynnir i'r Cabinet roi penderfyniad ar y cynlluniau sydd wedi eu datblygu a'r adnoddau cyllidol allai fod ar gael i fuddsoddi gan y Cyngor.

**2.4.** Mae angen hefyd amlygu bod yr Adran yn credu bod y targed arbedion yn mynd i fod yn eithriadol o heriol i'w gyrraedd ac mae risg mai dim ond £50,000 ellir ei wireddu yn y ddwy flynedd gyntaf. Y tu hwnt i hynny bydd angen adolygu opsiynau a phartneriaethau yn lleol er mwyn cyrraedd y targed blynyddol o £100,000.

## 3. Cefndir

**3.1.** Mae Neuadd Dwyfor yn cartrefu Theatr, Sinema a Llyfrgell ym Mhwllheli a ni welwyd buddsoddiad sylweddol i'r adeilad na'i adnoddau ers 1996. Bellach mae wedi cyrraedd croesffordd o ran ei dyfodol. Mae Adroddiad Cyflwr wedi'i gynnal a nid oes unrhyw faterion o bryder wedi'u hadnabod ac mae'r adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan.

**3.2.** Mae ei dyfodol wedi ei thrafod lawer gwaith yn y gorffennol gydag ymgais i drosglwyddo'r Neuadd yn ystod 2013-14 yn methu a chael ei wireddu – yn bennaf oherwydd y costau uchel o wneud hynny. Amlygwyd y Neuadd hefyd fel opsiwn i'w chau yn dilyn Her Gwynedd, ond ni gefnogwyd hynny ar y pryd a derbyniwyd deiseb gyda dros 7,000 o enwau arni. Yn hytrach, penderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb ond fod hynny'n amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.

**3.3.** Yn dilyn hyn, wrth edrych ar gyfleon adrodd o 2019/20 ymlaen bu i'r Adran adrodd nad oeddent wedi llwyddo i gael corff lleol i'w gymryd drosodd ond bod yna gynllun arall fyddai'n cyflwyno arbedion o £100,000 fyddai angen buddsoddiad er mwyn ei gyflawni. Yn ei gyfarfod yn Mawrth 2019 fe gytunodd y Cyngor i gynnwys y cynllun yma fel un o'r cynlluniau arbedion y dylid eu mabwysiadu er mwyn cyfarch ein bwlch ariannol.

**3.4.** Darperir rhaglen amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn y Neuadd ac mae ganddi rôl bwysig yn y gymuned ac yn economi'r ardal. Mae cefnogaeth frwd o'r lleoliad ymysg trigolion lleol a thrigolion Pen Llyn. Mae hefyd yn adnodd o fewn tref Pwllheli sy'n atyniad i nifer uchel o ymwelwyr yn ystod y tymor gwyliau.

**3.5.** Nid oes cyfleusterau tebyg i'r Neuadd yn Nwyfor na Gogledd Meirionnydd sy'n golygu y byddai angen teithio i Gaernarfon, Bangor neu Landudno pe na byddai'n bodoli ac yn 2018-2019 fe ymwelwyd a'r Neuadd gan dros 52,000 o bobl.

**3.6.** Cost darparu elfennau Celfyddydau Perfformio'r Neuadd i Gyngor Gwynedd yw £161,764. Erbyn 2022 disgwylir i'r gost o ddarparu ostwng i £61,764.

**3.7.** Hon yw'r unig ddarpariaeth theatr / sinema a redir bellach gan Gyngor Gwynedd yn dilyn trosglwyddo darpariaeth Neuadd Buddug, Y Bala i Ysgol Godre'r Berwyn ac felly hon ydi'r unig ddarpariaeth o'i bath i gael ei chyllido gan holl drethdalwyr y Sir. Mae rhedeg y ddwy Neuadd yma wedi bod yn fater hanesyddol a drosglwyddwyd o Gynghorau Meirionnydd a Dwyfor yn dilyn Adrefnu 1996.

**3.8.** Wedi dweud hynny, mae gan y Cyngor gyllideb o £95,820 sy'n cynnig Grantiau Strategol i'r Celfyddydau er mwyn cefnogi gweithgareddau celfyddydol ar draws y Sir e.e. Galeri Caernarfon, Pontio, Neuadd Ogwen, Canolfan Gerdd William Mathias, Fran Wen, Theatr Bara Caws, Llenyddiaeth Cymru, Dawns i Bawb, Opera Cymru, Plas Glyn y Weddw, Theatr y Ddraig a darperir cefnogaeth i Gyfeillion Theatr Derek Williams, Y Bala.

**3.9.** Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu gweithgareddau a sesiynau celfyddydol yn ogystal â grantiau bach ar draws y Sir trwy Celfyddydau Cymunedol Gwynedd sy'n hyrwyddo'r agendau iechyd a lles, addysg, unigrwydd, bwrlwm cymunedol, yr economi a bylchau mewn darpariaeth. Darperir sesiynau celfyddydol hefyd o fewn ein llyfrgelloedd.

## 4. Adolygiad Busnes Neuadd Dwyfor

**4.1.** Comisiynwyd Adolygiad Busnes o'r Neuadd yn ystod 2017-18 gyda nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe amlygodd yr ymgynghorydd feysydd i'w datblygu er mwyn gwella perfformiad y Neuadd, ei ymgysylltiad gyda'r gymuned leol ac er mwyn sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol.

4.2. Trwy gynnal arolygon, fforymau a grwpiau ffocws, rydym yn gweld bod nifer yn teimlo bod ansawdd y ddarpariaeth yn uchel, ond mae nifer o bwyntiau negyddol yn cael eu gwneud, yn enwedig o ran seddau anghyfforddus, cyntedd oer, diffyg cyfleusterau bwyd a diod, diffyg gweithgareddau ymgysylltu, ffilmiau newydd yn cael eu dangos yn hwyrach, diffyg arwyddo yn y dref a'r angen i fuddsoddi mewn technoleg well.

4.3. Wedi dweud hynny, mae nifer o bwyntiau cadarnhaol hefyd yn cael eu gwneud e.e. effaith gadarnhaol y Neuadd ar fusnesau lleol, prisiau tocynnau, y rhaglen gelfyddydol Gymraeg a phwysigrwydd y Neuadd yng nghyd-destun is-adeiledd celfyddydol Gogledd Orllewin Cymru.

4.4. Mae'r Adolygiad yn archwilio opsiynau ar gyfer y dyfodol gydag amcan y byddai'r opsiwn buddsoddi i arbed yn medru creu arbedion o rhwng £64,000 a £100,000 dros gyfnod o 3 mlynedd. Mae'r Adran yn wyliadwrus ac yn amheus o'r ffigwr o £100,000 o arbedion oherwydd y ddibyniaeth ar wirfoddolwyr, grantiau allanol a chan nad oes sicrwydd o wireddu'r incwm a nodir o bob gwelliant. Rydym wedi craffu'r opsiynau ymhellach a gellir crynhoi'r costau a'r arbedion posib i'r Cyngor fel a ganlyn wrth ystyried costau rhedeg y Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio'n unig. Mae manylion mwy manwl i'w gweld yn Atodiad A:

| **Cau** | **£** |
|---|---|
| Costau Un tro | 170,000<br>+ ail leoli'r llyfrgell |
| | |
| Costau rhedeg presennol | 161,760 |
| Arbediad blynyddol yn sgil cau | (141,760) |
| Costau rhedeg hyd nes y byddem yn gwaredu'r adeilad | 20,000 |
| | |
| **Buddosddi yn yr adeilad** | |
| Costau buddsoddi | 569,500 |
| | |
| Costau Rhedeg Presennol | 161,760 |
| Arbediad blynyddol "sicr" o fuddsoddi | (50,000) |
| Costau rhedeg gweddilliol | 111,760 |
| Arbedion pellach posib o wireddu rhagdybiaethau'r Ymgynghorwyr yn llawn | (50,000) |
| Costau rhedeg gweddilliol | 61,760 |

Awgryma'r Ymgynghorydd y gellid edrych ar allanoli'r Neuadd yn yr hir dymor i geisio lleihau'r gost rhedeg gweddilliol ymhellach – ond y byddai'n rhaid buddsoddi yn y cyfleuster cyn ymchwilio hyn ymhellach.

## 5. Ymateb: Gweledigaeth ac Amcanion newydd i fuddsoddi a gwella'r Neuadd

5.1. Hyd yn ddiweddar mae'r ddau wasanaeth sy'n gweithredu o'r Neuadd wedi gweithredu ar wahân gyda chyd-weithio'n digwydd yn achlysurol ac ad-hoc. Newidiwyd rheolaeth y ddau dîm staff yn y Neuadd fel eu bod yn adrodd i un rheolwr ar 1 Rhagfyr 2019.

5.2. Bellach mae Tîm Staff, Tîm Defnyddwyr a Bwrdd Prosiect wedi eu sefydlu i symud ein gweledigaeth a'n hamcanion ymlaen.

5.3. Ymwelwyd â Story House Caer ym mis Hydref 2019 ac mae'r model gweithredu yno wedi rhoi syniadau ac ysbrydoliaeth i ni symud ymlaen.

**5.4.** Mae Story House yn ganolfan ddiwylliannol newydd yng Nghaer. Roedd adfywio canol dinas Caer wrth graidd y prosiect gwerth £37m sy'n cynnig y llyfrgell gyda'r oriau agor hiraf ym Mhrydain a rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau diwylliannol.

**5.5.** Ein gweledigaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:
***Creu gofod a gwasanaeth unedig sy'n ysbrydoli, cefnogi a gwasanaethu pobl Gwynedd trwy brofiadau diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol.***

**5.6.** Mae amcanion ein prosiect i'w gweld yn Atodiad B.

**5.7.** Mae Neuadd Dwyfor yn cyd-fynd â nifer o strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn gwneud cyfraniad pwysig i agendau iechyd, lles, iaith, diwylliant, cydraddoldeb ac adfywio.

## 6. Buddsoddi i Arbed – yr angen

**6.1.** Wrth ystyried yr angen i fuddsoddi er mwyn arbed, mae'r Gwasanaeth wedi ystyried yr opsiynau a gynigir gan yr Ymgynghorydd, anghenion y gwasanaeth a phobl Gwynedd ac yn bwysicach oll - y gyllideb realistig allai fod ar gael.

**6.2.** O ystyried yr hinsawdd ariannol, rydym wedi canolbwyntio ar wneud gwelliannau elfennol ond hanfodol allai arwain at wireddu arbedion i'r Cyngor, ond hefyd greu sefyllfa mwy ffafriol allai hwyluso trosglwyddo'r adeilad i fudiad neu i'r gymuned yn y dyfodol.

**6.3.** Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i weithio gyda ni ar gynlluniau i wireddu prif argymhellion yr adolygiad busnes. Mae cyfanswm y cost cyfalaf yma yn dod i **£779,314** ac mae manylion pellach ar gael ar gais.

## 7. CYLLIDO

| **Corff** | **Cyllid** | **Statws** |
|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | £50,000 – llyfrgell<br>£70,000 – llyfrgell a thoiled hygyrch | Wedi ei gadarnhau<br>Cais wedi' gyflwyno |
| **Derbyniadau Cyfalaf yr Adran Economi a Chymuned** | £89,867 | Wedi ei gadarnhau |
| **Bwlch i'w ariannu gan Gyngor Gwynedd** | **£569,447** | **Cais i'r Gronfa Trawsffurfio Cyngor Gwynedd** |

8.1 Yn ogystal â'r symiau hyn, dylid nodi y bydd colled incwm i'r Adran tra bydd y Neuadd ar gau – ar sail patrymau'r gorffennol, amcangyfrifir bod hyn tua £25,000.

8.2 Er bod trafodaethau wedi bod gyda chyllidwyr posib eraill, nid oes grantiau priodol niferus ar gael ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, bydd trafodaethau'n parhau gyda: Cyngor Celfyddydau Cymru, Croeso Cymru a Chronfeydd y Loteri Genedlaethol i geisio sicrhau arian cyfatebol ychwanegol.

## 8. Buddsoddi i arbed – yr incwm posib a'r arbediad posib i Gyngor Gwynedd

**8.1.** Rhagwelir y proffil arbedion canlynol yn dilyn buddsoddiad yn y Neuadd:

| | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **CYFANSWM PARHAOL** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Proffil arbedion gwreiddiol** | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | **£100,000** |
| **Proffil diwygiedig er cymeradwyaeth y Cabinet** | £25,000 | £25,000 | £20,000 | £15,000 | £15,000 | **£100,000** |

**8.2.** Yn dilyn craffu'r gwaith yn yr adolygiad busnes, mae'r Adran Economi a Chymuned yn hyderus bod modd cyrraedd ffigwr incwm o £50,000 trwy wireddu'r newidiadau a datblygu model gweithredu newydd yn y Neuadd. Gwireddir hyn drwy:

| | |
|---|---|
| Wella'r cynnig bwyd a diod<br>Adolygu'r seddau a chael seddau newydd<br>Adolygu'r rhaglen<br>Incwm ystafelloedd cyfarfod / gweithgaredd | Cynyddu defnyddwyr 5%<br>Datblygu rhaglen cymryd rhan<br>Gynyddu marchnata digido<br>Gwella'r cynnig i 'Ffrindiau Neuadd Dwyfor' |

**8.3.** O weithio gyda'r Tîm Defnyddwyr a sefydlu Grŵp Ffrindiau, teimlir y gellir rhoi her ar gymunedau a mudiadau lleol i gynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd y targed arbedion o £100,000 erbyn 2025. Pe byddai'r her yma yn methu gyda'r gymuned leol, yna mae risg y byddai costau rhedeg yr adnodd yn parhau i fod dros £111,000 yn flynyddol i drethdalwyr Gwynedd.

## 9. Amserlen

**9.1.** O dderbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r prosiect, bwriedir gweithredu i amserlen adnewyddu o tua 5 mis. Golyga hyn y bydd y Neuadd wedi ei gweddnewid cyn ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Dwyfor yn 2021.

| | |
|---|---|
| Maw - Ebrill 2020 | Caffael Adeiladwr |
| Ebrill 2020 | Penodi Adeiladwr a chytuno amserlen waith |
| Mai – Hydref 2020 | Gwaith adnewyddu ac atgyweirio – gall effeithio ar y rhaglen ac oriau agor y Neuadd. Gall hefyd fod ar gau am gyfnod. |
| Mai - Hydref 2020 | Gwaith ymgysylltu efo'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol |
| Yr Hydref 2020 | Lansio'r Neuadd ar ei newydd wedd |

## 10. Y Dyfodol

**10.1.** O ganlyniad i fuddsoddiad y Cyngor, ein gweledigaeth i'r dyfodol fyddai trosglwyddo'r neuadd i gorff perthnasol. Wedi dweud hynny, ar hyn o bryd, nid oes corff perthnasol na phriodol yn bodoli ac yn y gorffennol ni lwyddwyd i wneud hynny.

**10.2.** Yn y tymor byr, teimlir mai'r opswin gorau ar gyfer y neuadd yw trawsnewid y trefniadau rheolaethol a gweithredu er mwyn ymateb i'n gweledigaeth a'n hamcanion buddsoddi. Trwy wneud hyn, rydym yn hyderus bod modd ymateb i'r her o redeg y neuadd ar lai o gost i drethdalwyr Gwynedd, ond hefyd greu gwasanaeth llawer iawn gwell i bobl Gwynedd.

**10.3.** Mae gwaith yn mynd rhagddi i ddatblygu Grŵp Defnyddwyr a Chyfeillion i gefnogi'r Neuadd ac mae'n bosib y gallai'r grwpiau yma - neu esblygiad ohonynt, gyda chefnogaeth, ddatblygu i fod yn gorff y gellid trosglwyddo iddo yn y tymor hir neu yn gorff allai gefnogi'r Cyngor gydag ymgyrchoedd nawdd a chodi arian yn ogystal â datblygu cynllun gwirfoddolwyr.

## 11. Casgliad

**11.1.** O adolygu'r opsiynau, byddai peidio â buddsoddi i arbed yn creu sefyllfa lle byddai Neuadd Dwyfor yn adnodd a fyddai'n creu mwy o golled flynyddol i'r Cyngor ac yn gosod hyfywdra a dyfodol Neuadd Dwyfor yn y fantol.

**11.2.** Gan y byddai cau Neuadd Dwyfor **hefyd** yn golygu buddsoddiad unwaith ac am byth i fedru ei wireddu, y gwahaniaeth buddsoddiad unwaith ac am byth rhwng y ddau opsiwn (cau neu wella'r cyfleusterau) yw £399,500. Byddai cau yn arwain at fwy o arbedion wrth gwrs, ond yn golygu colli adnodd bwysig i'r ardal. O fedru gwireddu'r potensial ar gyfer yr holl arbedion byddai'r ddarpariaeth yn parhau i gostio £61,670 i holl drethdalwyr y sir.

**11.3.** Byddai cau yn effeithio'n andwyol ar dref Pwllheli a'r ardal o safbwynt yr economi ac adfywio, yn ogystal ag o safbwynt celfyddydol, diwylliannol a ieithyddol. Byddai'n tynnu adnodd bwysig o'r gymuned na fyddai'n hawdd ei ail-sefydlu na'i drosglwyddo i drydedd parti.

**11.4.** Byddai buddsoddi i arbed yn golygu buddsoddiad unwaith ac am byth a fyddai'n sicrhau fod Neuadd Dwyfor gyda siawns realistig i gynyddu incwm.

**11.5.** Er y teimlir bod y targed £100,000 a roddwyd ymlaen fel arbediad potensial i'r Cyngor yn uchelgeisiol, credir bod modd i Neuadd Dwyfor gynyddu ar ei lefel incwm presennol, gan ddechrau dangos cynnydd ar lefelau'r incwm o 2021-22 ymlaen hyd at £50,000 yn flynyddol.

**11.6.** Hyderir trwy ddatblygu perchnogaeth leol trwy Grwp Ffrindiau a Grŵp Prosiect penodol y bydd modd datblygu strwythurau cefnogol i leihau'r bwlch ariannu ar Gyngor Gwynedd yn y tymor canolig a cheisio cyrraedd y targed o £100,000 erbyn 2025.

**11.7.** Hyd yn oed pe byddai'r Neuadd yn llwyddo i gyrraedd y nod o wireddu'r arbediad uchelgeisiol o £100,000, tra byddai modd anelu i'r hir dymor i geisio lleihau'r costau rhedeg gweddilliol ymhellach drwy edrych ar allanoli, yn y tymor canolig, o dderbyn y cynnig yma i fuddsoddi, byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn trwy wneud hynny y byddai'n anorfod ei fod yn talu £61,760 am redeg y cyfleustra hyd nes y byddai unrhyw gynllun amgen yn dod i'r amlwg.

## 12. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

*"Gwelir o'r adroddiad fod cais yma am fuddsoddiad o £570k. Gallaf gadarnhau fod adnoddau digonol yn y Gronfa Trawsnewid i ariannu'r buddsoddiad yma, ond wrth gwrs nid yw hwn yn ffynhonnell ddiderfyn o arian a fel gyda phob cais arall am arian o'r gronfa bydd angen i'r Cabinet bwyso a mesur os yw'r defnydd hwn o adnoddau yn bodloni ei flaenoriaethau.*

*Pe byddai'r Cabinet yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynllun mae posibilrwydd y gallai'r Adran ddarganfod yr holl arbedion disgwyliedig erbyn 2025 ar sail y proffil addasedig, a rwyf yn derbyn fod gwireddu hyn yn hynod annhebygol heb fuddsoddiad cyfalaf. Mae ail-broffilio, o'i natur, yn golygu y gallai'r Cyngor orfod pontio'r gwahaniaeth rhwng y proffil gwreiddiol a'r un addasedig.*

*Yn ogystal â'r buddsoddiad cyfalaf y cyfeirir ato yn yr adroddiad, byddai'r sybsidi a roddir i'r celfyddydau perfformio yn Neuadd Dwyfor yn parhau dros £60k y flwyddyn (ar brisiau 2019/20) hyd yn oed petai'r holl arbedion yn cael eu gwireddu. Bydd hyn yn parhau'n sylweddol uwch na'r grantiau neu gymhorthdal a roddir i gyrff diwylliannol tebyg eraill sy'n gweithredu o fewn Gwynedd. Felly, wrth ddod i gasgliad ar y penderfyniad a geisir bydd angen i'r Cabinet ystyried os yw am i hyn barhau.*

**Barn y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r adroddiad yn nodi'r rhesymeg dros y buddsoddiad a'r buddion posib sydd yn deillio o hynny yn nhermau gwasanaeth i'r cyhoedd ac arbedion. Yn amlwg, gydag unrhyw fuddsoddiad o'r fath mae risgiau ynghlwm o ran cyflawni'r buddion hyn yn unol a'r rhagamcanion a bydd hyn yn fater i'r Cabinet ystyried wrth asesu'r mater. Fodd bynnag, oherwydd sefyllfa bresennol y Neuadd, mae'r ddadl dros fuddsoddi yn eglur, ac mi all hyn arwain at hwyluso'r weledigaeth o drosglwyddo'r Neuadd i gorff berthnasol yn y dyfodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."*

**Barn Aelod Lleol**:

<u>Y Cyng. Dylan Bullard</u>: *Rwy'n llwyr gefnogi cynigion yr Adran Economi a Chymuned ynghylch Neuadd Dwyfor. Mae'n lleoliad pwysig sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr yn Llyn ac Eifionydd. Yn anffodus oherwydd ei oedran mae'r adeilad angen rhywfaint o adferiad i'w wneud yn ddefnyddiadwy i bawb. Gofynnaf i'r cabinet gefnogi ac ategu'r holl gynigion hyn hefyd.*

<u>Y Cyng. Hefin Underwood</u>*: Yn cefnogi'r buddsoddiad pwysig yma'n Neuadd Dwyfor 100%.*

**Atodiad A**

**Costau ac Arbedion i Gyngor Gwynedd yn deillio o opsiynau dyfodol Neuadd Dwyfor yn berthnasol i'r Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio yn unig**

| Opsiwn | Sylwadau | Costau / Arbedion Posib |
|---|---|---|
| <u>Cau</u> | Ansicr os y byddai'n arwain at arbedion sylweddol i'r Cyngor na phwy fyddai eisiau prynu'r adeilad yn y dyfodol. Groes i egwyddorion Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru + agenda Adfywio'r Cyngor. Nododd 80% o gynulleidfa Neuadd Dwyfor eu bod yn gwario ar gyfartaledd £5 y pen yn y dref sy'n gyfraniad o dros £100,000 y flwyddyn i Bwllheli.<br>Amddifadu ardal eang o ddarpariaeth gelfyddydol a diwylliannol sy'n ran bwysig o hunaniaeth yr ardal.<br><u>Costau Un-tro:</u><br>Angen ad-leoli'r Llyfrgell (un-tro)<br>Costau diswyddo staff (un-tro)<br>Ad-dalu grantiau (Llywodraeth Cymru + Cyngor Celfyddydau)<br>**Cyfanswm**<br><u>Costau Blynyddol:</u><br>Cynnal a Chadw Adeilad Gwag hyd nes y gwaredir (blynyddol)<br>**Cyfanswm**<br><u>Arbedion blynyddol posib hyd nes y gwaredir yr adeilad:</u><br>Costau Rhedeg (£61,764) – Costau Blynyddol £20,000)<br><u>Arbedion blynyddol posib o gau a gwaredu:</u> | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>£60,000<br>£25,000<br>£85,000<br><br>**£170,000**<br><br><br>£20,000<br>**£20,000**<br><br>**£41,764**<br>**£61,764** |
| <u>Buddsoddi yn yr adeilad</u> | Byddai hyn yn arwain at fuddsoddi i arbed yn y tymor hir gan leihau'r costau rhedeg ar Gyngor Gwynedd. Yn dilyn gwaith cynllunio a rhagbaratoi mae costau buddsoddi i arbed wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:<br><u>Costau Un-tro Buddsoddi i'r CYNGOR</u><br>Gwaith cyfalaf i wella'r adeilad a'r seddau<br>Digolledu refeniw incwm tra ar gau<br>**Cyfanswm**<br><u>Costau Blynyddol i'r Cyngor:</u><br><br><u>Arbedion blynyddol posib trwy ddatblygu cynulleidfa ac incwm ac o ganlyniad i gydweithio efo mudiadau lleol:</u> | <br><br><br><br><br>£569,447<br>£25,000<br>**594,447**<br>**£61,764**<br><br>**£50,000 - £100,000** |
| <u>Allanoli</u> | Oherwydd cyflwr presennol yr adeilad, ni ragwelir opsiynau eang ar gyfer allanoli. Gallai agor trafodaeth efo trydydd parti fod yn opsiwn - ond byddai angen dysgu o brofiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | trafodaethau'r gorffennol oedd wedi methu oherwydd costau trosglwyddo staff a gofynion pensiwn (TUPE), yr angen i fuddsoddi yn yr adnodd cyn trosglwyddo, costau gweinyddu a chost unrhyw gyfraniad cyllidol gan y Cyngor i drydydd parti.<br>Cost un-tro tebygol os yn buddsoddi cyn trosglwyddo<br>Gwaith cyfalaf i wella'r adeilad a'r seddau<br>Digolledu refeniw incwm tra ar gau<br>**Cyfanswm**<br>Costau trosglwyddo i endid arall<br>Ansicr beth fyddai'r costau hyn heb adnabod corff i drosglwyddo<br><br>Arbedion blynyddol posib i'r Cyngor os yn trosglwyddo'n llwyddiannus **heb** grant / gefnogaeth ariannol (*er heriol gwneud hyn.) | <br><br><br><br><br><br>£569,447<br>£25,000<br>**£594,447**<br><br>?<br><br><br><br><br>**£61,764** |

**Atodiad B**

**Gweledigaeth ac Amcanion y prosiect Buddsoddi i Arbed**.

Ein gweledigaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:

> ***Creu gofod a gwasanaeth unedig sy'n ysbrydoli, cefnogi a gwasanaethu pobl Gwynedd trwy brofiadau diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol.***

Ein hamcanion ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:

1. Creu un tîm gyda dealltwriaeth glir o'u rolau a chyfrifoldebau i wasanaethu pobl Gwynedd gan wneud defnydd gwell o adnoddau a chyllidebau'r Cyngor

2. Creu gofod croesawgar a hawdd cael mynediad ato i bawb

3. Creu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol rhagorol ar y cyd

4. Atgyfnerthu lle Neuadd Dwyfor fel canolfan ddiwylliannol a chymunedol hanfodol i ardal ac economi Pwllheli.

5. Gwella'r ddarpariaeth llyfrgell a chelfyddydol yn Nwyfor gan ddarparu'r oriau agor hiraf i unrhyw lyfrgell yng Ngwynedd

6. Datblygu strwythurau lleol a rhaglen o weithgareddau i ddatblygu cynulleidfa ac ymgysylltu.

7. Datblygu grŵp cyfeillion ar gyfer y Neuadd i gefnogi gweithgareddau a pherchnogaeth yn lleol – allai ddatblygu'n y dyfodol i hwyluso trosglwyddiad.

8. Buddsoddi yn yr adeilad er mwyn ymateb i anghenion pobl Gwynedd a'r weledigaeth newydd er mwyn creu incwm a lleihau'r gost ar drethdalwyr.